OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1318 (Cy. 267) (C. 106)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022

*Gwnaed - - - - 13 Rhagfyr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 148(2) a (3) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 15 Rhagfyr 2022**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i rym ar 15 Rhagfyr 2022—

(a) adran 1 (sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil);

(b) adran 9(2) i (5), (7) ac (8) (hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg);

(c) yn Atodlen 1 (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)—

(i) paragraffau 1 a 2;

(ii) paragraff 3;

(iii) paragraff 4(1)(a) a (c);

(iv) paragraff 5(1) a (2);

(v) paragraff 7(1) a (2);

(vi) paragraff 10(1), (3), (4) a (7);

(vii) paragraff 11(1) at y diben yn unig o benodi cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, a (2);

(viii) paragraff 12.

(**1**) 2022 dsc 1.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

13 Rhagfyr 2022

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf") sydd wedi eu rhestru yn erthygl 2 ac sy'n dod i rym ar 15 Rhagfyr 2022.

Mae'r darpariaethau a restrir yn erthygl 2 yn galluogi i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") gael ei sefydlu ac yn galluogi i berson gael ei ddynodi i roi cyngor i'r Comisiwn mewn cysylltiad â dyletswydd y Comisiwn i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae erthygl 2(a) yn cychwyn adran 1 o'r Ddeddf sy'n darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn ac yn cyflwyno Atodlen 1. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y Comisiwn megis aelodaeth, staffio, gweithdrefn, pwyllgorau, ac archwilio.

Mae erthygl 2(b) yn cychwyn darpariaethau penodol yn adran 9 o'r Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddynodi person i roi cyngor i'r Comisiwn at ddiben ei gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswydd i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae erthygl 2(c) yn cychwyn darpariaethau penodol yn Atodlen 1 sy'n darparu ar gyfer penodi cadeirydd, dirprwy gadeirydd (sydd, yn unol â pharagraff 1 o'r Atodlen honno, yn gadeirydd Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi y Comisiwn), aelodau arferol a phrif weithredwr y Comisiwn. Mae hefyd yn cychwyn gofynion gweithredol penodol mewn perthynas ag apwyntio aelodau cyswllt penodol.